# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014**
**Cofnodion cyfarfod 25 Tachwedd 2009**
**Dyddiad: 25 Tachwedd 2009**
**Amser: 07:45**
**Lleoliad: Ystafell gynadledda 4B**

## Cofnodion cyfarfod 25 Tachwedd 2009

**Presennol:**
**Llywydd, Cadeirydd**
**Lorraine Barrett AC (Llafur)**
**Peter Black AC (y Democratiaid Rhyddfrydol)**
**William Graham AC (y Ceidwadwyr)**
**Chris Franks AC (Plaid Cymru)**

**Swyddogion yn bresennol:**
**Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**
**Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu**
**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**
**Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Ian Summers, Pennaeth yr Uned Gorfforaethol**
**Aled Eirug, Cynghorwr Cyfansoddiadol**
**Helen Finlayson, Ysgrifenyddiaeth**
**Connie Robertson, Pennaeth Ystadau a ThGCh (eitem 3)**

**Cynghorwyr Annibynnol:**
**Dim**

**Arsyllwyr:**
**Dim**

**Eraill:**
**Dim**

### 1. Cyflwyniad

**Datgan buddiannau**
**Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.**

Cofnodion y cyfarfod – 21 Medi 2009
Cytunwyd ar y cofnodion yn ffurfiol..

Materion yn deillio o gofnodion y cyfarfod 21 Medi 2009
Nid oedd unrhyw faterion yn deillio o'r cofnodion.

2. Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Cymorth i Aelodau'r Cynulliad (SAM)
Cyflwynwyd yr ail bapur gan Claire Clancy, a nododd bod cam un o argymhellion yr adroddiad 'Yn Gywir i Gymru' wedi'u gweithredu ar 2 Tachwedd 2009 a bod gwaith yn digwydd i weithredu'r ail gam erbyn diwedd mis Mawrth 2010. Bydd gwaith craffu Cyfnod 1ar Fesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 yn dechrau'n fuan.

Gofynnodd y Comisiynwyr nifer o gwestiynau ynghylch gweithredu argymhellion penodol. Nododd y Comisiwn y cynnydd a wnaed ar Brosiect SAM a diolchodd i'r staff perthnasol am eu gwaith.

3. Ein Hymrwymiad i Gynaliadwyedd
Cyflwynwyd y trydydd papur gan Dianne Bevan, a nododd fod y bwriad i ddod yn garbon niwtral erbyn 2015 yn gyfle i'r Cynulliad arwain trwy esiampl, ond fod y strategaeth hefyd yn ddigon hyblyg i ymateb i agenda cynaliadwyedd sy'n datblygu. Nododd Connie Robertson, er bod angen mwy o waith, fod rhywfaint o waith i wella dulliau o ddefnyddio ynni'n effeithiol wedi'i wneud eisoes, ac mae hyn wedi arwain at welliannau yng nghyfradd defnydd ynni'r ystâd. Nododd Lorraine Barrett yr angen i sicrhau bod ymgysylltiad cyflawn â'r strategaeth gan Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff y Cynulliad.

Bu'r Comisiwn yn trafod y materion sy'n cael sylw yn y papur, yn arbennig pwysigrwydd ymchwilio i ddulliau amgen o deithio mewn cysylltiad â'r gwaith. Fe wnaethant ofyn hefyd am roi blaenoriaeth i gamau cywiro er mwyn dileu problemau fel swyddfeydd gorboeth, i gynorthwyo pobl i dderbyn camau cynaliadwyedd eraill. Cadarnhaodd y Comisiwn: y nod o ddod yn garbon niwtral erbyn 2015; y targedau gostwng allyriadau blynyddol sef 8 y cant ar gyfer ynni a 3 y cant ar gyfer teithio; y strategaeth arfaethedig i ostwng allyriadau a defnyddio dulliau gwrthbwyso carbon i raddau cyfyngedig ar gyfer agweddau ar deithio busnes a'i ddefnyddio'n

ehangach yn ddiweddarach yn y cyfnod targed os bydd angen; a derbyniodd y Comisiwn gost y strategaeth.

Diolchodd y Comisiwn i'r Tîm Gwyrdd am eu gwaith yn hyrwyddo cynaliadwyedd trwy'r Cynulliad.

4. Newid enw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Cyflwynwyd y papur gan Ian Summers, a nodai fod yr adroddiad 'Yn Gywir i Gymru' wedi argymell, er mwyn eglurder, y dylid ail-enwi Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Comisiwn yn Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad. .

Cytunodd y Comisiwn i newid enw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad.

5. Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn
Ystyriodd y Comisiwn bapur rhif pump, Adroddiad y Bwrdd Rheoli, a bu'n trafod y materion a ganlyn:

Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog
Mae'r gwaith o recriwtio ar gyfer y Panel Adolygu Annibynnol yn digwydd ar hyn o bryd. Cafwyd deuddeg cais, a chynhelir y cyfweliadau ar 4 Rhagfyr. Bydd y Panel yn cynnal ei gyfarfod cyntaf cyn y Nadolig.

Y wybodaeth ddiweddaraf am y Pierhead
Dechreuodd gwaith ar y safle ym mis Medi, ac mae pethau'n mynd yn dda i gwblhau'r gwaith yn barod ar gyfer y lansio swyddogol ar 1 Mawrth 2010. Nododd Lorraine Barrett y bydd cyflwyniad am y Pierhead ar gael i Gomisiynwyr a'u pleidiau i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir ar y cynllun ac ar ddefnydd posibl y gwagleoedd yn yr adeilad.

Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, bu'r Pwyllgor yn trafod adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2010-1. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi dull gweithredu'r Comisiwn, ond nododd hefyd werth sicrwydd allanol i helpu i greu ymddiriedaeth yng ngallu'r Comisiwn i ddarparu rheolaeth ariannol gadarn. .

Rhaglen Rhwydwaith Unedig
Yn dilyn cymeradwyo'r gyllideb atodol ym mis Hydref, mae'r cynllun prosiect diweddaraf ar gyfer y prosiect i osod Aelodau'r

**Cynulliad a staff ar un rhwydwaith cyfrifiadurol unedig, wedi'i ddatblygu.  Profir cymwysiadau a systemau gweithredu a ddefnyddir gan Aelodau a staff dros y misoedd nesaf. Bydd yr holl Aelodau'n cael gwybodaeth reolaidd ar y cynnydd a wneir ar y prosiect.**

**Darlledu**
**Daeth darlledu byw o drafodion y Cynulliad ar S4C i ben ym mis Gorffennaf, er y darlledir trafodion penodol a recordiwyd ar BBC Parliament.  Bydd trafodaethau ag S4C yn parhau ynglyn â dangos trafodion yn fyw yn ystod y dydd.  Mae trafodion byw y Cynulliad ar gael ar hyn o bryd ar Senedd.tv neu BBC's Democracy Live; gofynnodd Peter Black am ffigurau gwylio ar gyfer y ddwy sianel hyn.**

**6. Materion i'w nodi**
**Nododd y Comisiwn Lythyr Rheolaeth Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn.**